

## Adroddiad Blynyddol Fforwm Derbyn 2014 - 2015

**Awdurdod Derbyn: Wreccsam**

Ysgrifennydd y Fforwm: Mrs Bev Griffith Manylion cyswllt: [Bev.Griffith@wrexham.gov.uk](mailto:Bev.Griffith@wrexham.gov.uk) Ffôn: 01978 295426

Cyfeiriad: Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc, 3<sup>ydd</sup> Llawr Stryt y Lampint, LL11 1LG

## Aelodaeth a phresenoldeb y Fforwm

Enw	Swydd	Yn Aelod o'r Fforwm* ers	Aelodaeth yn ôl categori (gweler y tabl isod)
Mrs Maria Rimmer	Cadeirydd/Pennaeth, Ysgolion Uwchradd Anglicanaidd a Chatholig	4 Blynedd Cadeirydd Ebrill 2014	Catholig
Mr Brendan MacDonald	Is-gadeirydd/Pennaeth, Ysgolion Cynradd Adran Iau	4 Blynedd Is-Gadeirydd Ebrill 2014	Y/CG
Mr John Davies	ALI Wrecsam / Pennaeth Addysg	6 Mlynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/Plant Sy'n Derbyn Gofal
Mr Dafydd Ifans	ALI Wrecsam/Pennaeth Gwasanaethau Isadeiledd a Chymorth Addysg	6 Mlynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/Plant Sy'n Derbyn Gofal
Mr Nick Williams	ALI Wrecsam / Pennaeth Effeithiolrwydd a Chynhwysiant Addysg	7 Mlynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/Plant Sy'n Derbyn Gofal
Mrs Sally Richard-Simpson	ALI Wrecsam / Swyddog Clwstwr Cynhwysiant	2 Flynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/Plant Sy'n Derbyn Gofal
Ms Paula Parry	Rheolwr Mynediad a Lleoedd Ysgol	Blwyddyn	ALI, ALI/AAA, ALI/Plant Sy'n Derbyn Gofal
Y Cynghorydd Michael Williams	Aelod Arweiniol Gwasanaethau Plant ac Addysg	3 Blynedd	CYM/L
Mrs Rita Price	Comisiynydd Esgobaethol ar gyfer Ysgolion	10 Mlynedd	Catholig

	Catholig		
Mrs Rosalind Williams/ Sheridan Goody	Swyddog Ysgolion Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru	7 Mlynedd  Blwyddyn	Yr Eglwys yng Nghymru
Mr Simon Ellis	Pennaeth, Ysgolion Sefydledig	4 Blynedd	Y/S
Mrs Nicola Booth	Pennaeth, Ysgol a Gynorthwyr y Santes Fair, Rhiwabon	5 Mlynedd	Y/GW
Mr Carwyn Davies	Pennaeth, Ysgolion Cyfrwng Cymraeg	Blwyddyn	Y/CG
Ms Sarah Hurst	Pennaeth, Ysgolion Cynradd i Fabanod	9 Mlynedd	Y/CG
Mrs Maxine Pittaway	Pennaeth, Ysgolion Arbennig	6 Mlynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/Plant Sy'n Derbyn Gofal
Ms Kelly Senior	Gorllewin Caer ac ALI Caer	Blwyddyn	ALI, ALI/AAA, ALI/Plant Sy'n Derbyn Gofal
Mrs Helen Evans	ALI Sir Ddinbych	2 Flynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/Plant Sy'n Derbyn Gofal
Mrs Gill Yates/Mrs Christine Roberts	ALI Sir y Fflint	10 Mlynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/Plant Sy'n Derbyn Gofal
Mrs Carol Sneddon	ALI Swydd Amwythig	4 Blynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/Plant Sy'n Derbyn Gofal
Mrs Alison Fisher	Rhiant Lywodraethwr Cynradd	3 Blynedd	RhL
Mr David Edwards	Rhiant Lywodraethwr Uwchradd	Blwyddyn	RhL

**\*Os ydynt wedi gwasanaethu am fwy na 4 blynedd, dylid cynnwys y dyddiad y cawsant eu hail-ethol hefyd.**

## Acronymau ar gyfer Aelodau Craidd

Aelodau a Enwebwyd gan	Aelodau Craidd	Acronym
ALI - unrhyw aelod neu swyddog o'r awdurdod	1 i 5	<b>ALI, ALI/AAA, ALI/Plant Sy'n Derbyn Gofal</b>
Cynrychiolwyr Esgobaethol Yr Eglwys yng Nghymru	1 i 3	<b>Yr Eglwys yng Nghymru</b>
Cynrychiolwyr Esgobaethol Catholig Rufeinig	1 i 3	<b>Catholig</b>
Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir	1 i 3	<b>Y/CG</b>
Ysgolion Sefydledig	1 i 3	<b>Y/S</b>
Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol	1 i 3	<b>Y/GW</b>
Cynrychiolwyr ar ran Rhiant Lywodraethwyr	1 i 3	<b>RhL</b>
Cynrychiolwyr o'r Gymuned Leol	Hyd at 3	<b>CYM/L</b>

## Dyddiadau cyfarfodydd a phresenoldeb

	Dyddiad	Sawl Aelod o'r Fforwm oedd yn bresennol - yn ôl categori
Cyfarfod cyntaf	13 Tachwedd 2014	18 Cyfanswm 2 x RhL 1 x Y/S 4 x Y/CG 2 x Catholig 5 x ALI 1 x CYM/L 3 x Cynrychiolwyr eraill ar ran yr ALI
Ail gyfarfod	23 Ebrill 2015	15 2 x RhL 1 x Y/S 2x Y/CG 2 x Catholig 3 x ALI 1 x CYM/L 3 x Cynrychiolwyr eraill ar ran yr ALI 1 x Yr Eglwys yng Nghymru
Trydydd cyfarfod	Amh.	

**Cadarnhewch a yw awdurdodau derbyn yn ardal y fforwm wedi cwblhau'r ymgynghoriad a phenderfynu ar broses drefniadau derbyn o fewn yr amserlen sy'n ofynnol gan Reoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 [gan gynnwys ymgynghori ar y trefniadau erbyn 1 Mawrth yn y flwyddyn benderfynu a phenderfynu ar y trefniadau terfynol erbyn 15 Ebrill y flwyddyn honno].**

**Os bydd unrhyw awdurdod derbyn na fydd wedi bodloni'r amserlenni, rhowch fanylion yma.**

**Faint o ddogfennau ymgynghori ydych chi wedi eu gweld gan awdurdodau derbyn (heb gynnwys awdurdodau lleol eraill)?**

Cyflwynodd pob ysgol a gynorthwyr / ysgol sefydledig eu polisiau derbyn i'r Awdurdod Lleol mewn pryd i'w cynnwys yn y Canllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg yn Wrecsam 2016/2017.

**Pa drefniadau derbyn sydd wedi'u rhoi ar waith i wasanaethu buddiannau plant sy'n agored i niwed?**

**A ydynt wedi bod yn llwyddiannus?**

**Pa drefniadau eraill ydych chi wedi eu dynodi er mwyn cefnogi'r plant hyn?**

Er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion plant diamddiffyn yn y broses dderbyn, mae nifer o swyddogion allweddol yn cydweithio'n agos gyda staff yr Adran Derbyniadau. Pan fo gan ddisgyblion Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), bydd Swyddogion AAA perthnasol yn gweithio gyda'r Adran Derbyniadau i roi gwybod iddynt am leoliadau tebygol a allai fod yn wahanol i'w hysgol prif ffrwd leol. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer y disgyblion hynny sy'n debygol o fynychu ysgol arbennig neu ddarpariaeth ag adnoddau o fewn ysgol brif ffrwd.

Mae'r tîm Derbyniadau'n mynychu nosweithiau agored ysgolion a gall yr ysgolion hefyd nodi pa ddisgyblion sydd heb wneud cais yn defnyddio'r porth PRIME newydd. Mae hyn yn galluogi i'r tîm Derbyniadau gynorthwyo teuluoedd sy'n cael trafferth gyda'r broses o wneud cais cyn y dyddiad cau.

Diwallir anghenion Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG), neu'n arfer derbyn gofal, gyda chefnogaeth gan y Cydlynnydd Addysg PDG sy'n cysylltu â'r Tîm Derbyn ac yn sicrhau y caiff eu statws PDG ei adlewyrchu yn y broses dderbyn lle maent yn cael y flaenoriaeth uchaf yn y meini prawf gordanysgrifio.

Cefnogir disgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) gan y Gwasanaeth SIY a rhan o gylch gwaith y gwasanaeth yw sicrhau mynediad esmwyth i'r ysgol ar gyfer disgyblion SIY, gan wneud yn siŵr bod y teulu a'r ysgol yn gwbl barod i'w derbyn. Yn ogystal, bydd staff o'r Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad ac Addysg Teithwyr yn cefnogi disgyblion wrth gael eu derbyn neu wrth drosglwyddo rhwng ysgolion pan fo hynny'n briodol. Bydd y Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg hefyd yn gweithio gyda'r tîm derbyn i sicrhau y cynorthwyr disgyblion diamddiffyn (a'u teuluoedd) drwy'r broses dderbyn.

Mae'r Awdurdod Lleol yn dilyn y canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru 'Defnydd Effeithiol o Symudiadau wedi'u Rheoli'. Dogfen Wybodaeth Rhif: 096/2011 darperir dolen ati isod.

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/110301effectivecy.pdf>

Nododd y Fforwm Derbyniadau fod angen monitro canlyniadau disgwylledig yn erbyn canlyniadau gwirioneddol er mwyn asesu effeithiolrwydd y trefniadau presennol. Nodwyd hefyd y dylai Fforwm y Cydlynwyr AAA dynnu sylw at yr angen i fynd ati ynghynt i ddynodi'r plant y gall fod arnynt angen cymorth 1:1.

**Pa mor dda y mae'r gweithdrefnau derbyn y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn wedi gweithio?  
Faint o blant sydd wedi cael eu derbyn i bob ysgol o dan y gweithdrefnau?  
Ydych chi wedi nodi cynnydd yn y niferoedd ar gyfer derbyniadau yn ystod y flwyddyn, ac os felly pa gamau a nodwyd i fynd i'r afael â'r mater hwn?**

Mae Wrecsam wedi cytuno ar weithdrefn ar gyfer newid ysgol yng nghanol cyfnod, a'r ALI yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob cais o'r fath yn y Sir. Mae'r broses hon yn parhau i gael ei hadolygu. Mae'r broses yn galluogi'r Tîm Derbyniadau i sicrhau fod y gronfa ddata ganolog ar gyfer data disgyblion yn gyfredol ac mae'n eu cynorthwyo i ganfod plant 'diamddiffyn' yn fuan. Yn ogystal, cytunwyd ar ganllawiau ar gyfer ymdrin â cheisiadau trosglwyddo mwy cymhleth ac anodd, yn enwedig ym mlynnyddoedd 10/11 oherwydd ystyrir bod y blynnyddoedd hyn yn gwrs 2 flynedd; gallai ceisiadau i drosglwyddo i ysgolion eraill yn Wrecsam, ar ôl Blwyddyn 9, gael effaith negyddol ar gynnydd academaidd disgyblion ac felly nid yw'r ALI yn ystyried eu bod yn briodol.

Mae gwybodaeth ar gael i rieni drwy brosbectws cyfansawdd yr ALI. Mae meddalwedd 'In Year' CAPITA A&T yn cael ei ddefnyddio rŵan i gofnodi trosglwyddiadau canol cyfnod.

Gweler y daenlen (*Atodiad 1*) sy'n amlinellu trosglwyddiadau canol cyfnod ar gyfer blwyddyn academaidd 2014/2015.

Mae nifer y trosglwyddiadau canol cyfnod wedi gostwng o 745 ar gyfer blwyddyn academaidd 2013-14 i 666 ar gyfer y flwyddyn academaidd hon.



**Pa faterion mynediad allweddol sydd wedi'u nodi ar gyfer yr ardal?  
Beth ydyn nhw, a sut y mae'r fforwm yn mynd i'r afael â nhw?**

Cydnabyddir bod nifer y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar mewn nifer o ysgolion cynradd, adolygwyd y niferoedd derbyn a chawsant eu cynyddu pan fo'r cyfleusterau'n caniatáu. Mae'r ALI wedi'i gyfyngu gan argaeledd cyllid i gynyddu maint yr ysgolion mewn ardaloedd lle mae'r galw'n uchel; bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro.

Mae Wrecsam wedi nodi bod angen cynyddu eu darpariaeth AAA o fewn y sir. Mae'r ALI yn ystyried cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA yn Ysgol Sant Christopher ac yn Ysgol Gynradd Alexandra CP ac maent ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau gydag Ysgol Bodhyfryd i ddarparu uned AAA cyfnod sylfaen mewn ysgol Gymraeg.

Bu nifer fach o achosion pan fo penaethiaid ysgolion cynradd wedi derbyn disgyblion heb ddilyn y broses y cytunwyd arni yng nghanol cyfnod. Yn ogystal, mae rhai swyddogion derbyniadau i ysgolion uwchradd wedi gwneud sylwadau amhriodol wrth rieni'r disgyblion o ran eu derbyn i'w hysgol yn lle eu cyfeirio at Dîm Derbyn yr ALI. Cynhelir sesiynau briffio ar gyfer y penaethiaid hynny a all fod yn anghyfarwydd â'r broses. Mae'r broses o drosglwyddo ganol cyfnod yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a bydd ysgolion yn cael diweddariad pan fyddwn yn cytuno ar ganlyniad yr adolygiad. Mae'r protocol Defnydd Effeithiol o Symudiadau wedi'u Rheoli wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo mewn cyfarfod o Ffederasiwn y Penaethiaid Cynradd ac mewn cyfarfod o Gymdeithas Penaethiaid Uwchradd Wrecsam.

Cafwyd problem benodol mewn perthynas â lleoedd Meithrin cyfrwng Cymraeg yn ystod cylch derbyn Medi 2015, ni ddyrannwyd dewis cyntaf i rai rhieni oherwydd problemau o ran bod mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Bro Alun ac yn Ysgol Plas Coch. Mae gan yr Awdurdod Lleol, er nad yw mewn sefyllfa i gynnig lle i bawb yn eu ysgol fwyaf lleol, ddigon o lefydd mewn manau eraill o fewn y Sir i ddarparu ar gyfer disgyblion Meithrin a Derbyn. Mae'r Fforwm yn ymwybodol nad yw'r broblem hon yn unigryw i ardal Wrecsam ac awgrymir fod cynrychiolydd o Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn cael ei wahodd i ymuno â'r Fforwm. Gofynnodd y Fforwm am sicrwydd y byddai cynnydd yn y cyllid sydd ar gael i fodloni'r galw yn y dyfodol am addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Mae diffygion o ran rhannu data ag awdurdodau cyfagos wedi ychwanegu at broblemau o ran bod â mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael mewn rhai ardaloedd yn Wrecsam. Mae'r Fforwm wedi gofyn am gytundeb er mwyn lliniaru'r sefyllfa yn y dyfodol. Mae'r Fforwm yn ymwybodol bod nifer o rieni wedi derbyn deunydd marchnata oddi wrth ysgolion y tu allan i ardal Wrecsam a gofynnwyd i'r ALI fonitro hyn ac adrodd yn ôl.

**Pa ddulliau y mae'r Fforwm wedi'u defnyddio i ledaenu unrhyw gyngor neu benderfyniadau y mae wedi cyrraedd?**

Ddim yn berthnasol

**Dyddiad y cyhoeddwyd cyngor y Fforwm ar Wefan yr Awdurdod  
Mynediad:**

**Nodwch y ddolen berthnasol hefyd:**

**Llofnod: Bev Griffith**

**(Ysgrifenyddes y Fforwm)**

**Dyddiad: 30 Tachwedd 2015**

**Dychwelwch yr adroddiad wedi'i gwblhau erbyn 30 Tachwedd 2015 i:**

**SchoolsManagementDivision3@wales.gsi.gov.uk**

**Derbyniadau Ysgolion ac Apeliadau**

**Cynradd - *Atodiad 2***

**Uwchradd – *Atodiad 3***